

# 3. Bishopston Valley / Dyffryn Llandeilo Ferwallt

## A fascinating walk through a hidden valley

The ancient woodland cloaks a mysterious landscape of limestone caves, underground rivers and historic mine workings.

The trees are mostly mature ash and oak with a hazel understorey; the rare wild service tree and small-leaved lime can also be found. Ancient woodland indicator plants abound. The valley sides and floor are strewn with limestone boulders which can make for challenging walking but provide superb habitat for mosses and ferns.

Leading along the upper edge of the woodland, with good views over the canopy, the trail then drops to the emergence point of the underground river. Follow the valley floor upstream, passing the aptly - named Guzzle Hole - listen for the underground stream - and the huge collapsed cavern of Daw Pit before climbing the valley side back to the start point.

## Taith gerdded ddiddorol trwy ddyffryn cudd

Mae'r coetir hynafol yn gorchuddio tirwedd ddirgel o ogofeydd calchfaen, afonydd tanddaearol a gweithfeydd mwyngloddio hanesyddol.

Ynn a derw yw'r rhan fwyaf o'r coed yma gyda haen is o goed cyll; mae'r gerddinen wyllt a'r bisgwydden dail bach, ill dwy'n brin, i'w gweld yma hefyd. Mae digonedd o blanhigion sy'n tystio i goetir hynafol. Mae llethrau a llawr y dyffryn yn frith o glogfeini calchfaen sy'n gallu rhoi her i'r cerddwr ond sy'n gynefin wych ar gyfer mwsoglau a rhedyn.

Gan ymestyn ar hyd ymyl uchaf y coetir, gyda golygfeydd da dros y canopi, mae'r llwybr wedyn yn disgyn i le mae'r afon danddaearol yn dod i'r golwg. Dilynwch lawr y dyffryn i fyny'r afon, gan fynd heibio ogof ac iddi enw addas, sef Guzzle Hole - ceisiwch glustfeinio am y nant danddaearol - a cheudwll cwympedig anferth Daw Pit cyn dringo llechwedd y dyffryn yn ôl i'r man dechrau.

## Trail Information / Gwybodaeth am y Llwybr

**START / DECHRAU (GR/CG - SS 573 892)**
Public footpath opposite Beaufort Arms, Kittle
Llwybr cyhoeddus gyferbyn â'r Beaufort Arms, Kittle

**PARKING / PARCIO**
On the road in village / Ar y ffordd yn y pentref

**PUBLIC TRANSPORT / CLUDIANT CYHOEDDUS**
Bus stop by start point (25m)
Safle bws ger y man dechrau (25m)

*Steep paths, steps, uneven rocky paths, can be wet and muddy. Not suitable for pushchairs or wheelchairs. NB - in times of high rainfall the valley floor route can flood - take care!*

*Llwybrau serth, grisiau, llwybrau creigiog anwastad. Gall fod yn wlyb ac yn fwdlyd. Anaddas i gadeiriau gwthio neu gadeiriau olwyn. DS - pan fo glaw trwm, gall llifogydd ffurfio ar lawr y dyffryn.*




© Crown Copyright and database right 2016: Ordnance Survey 100023509
© Hawlfraint a hawl cronfa ddata'r Goron 2016: Yr Arolwg Ordnans 100023509